CYMRU IFANC
YOUNG WALES

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

TERI'N TRAFOD TRETHI



YN CYNNWYS

1 Beth yw Trethi Datganoledig Cymru? 3

2 Beth mae datganoledig yn ei olygu? 4

3 Pam mae Trethi Datganoledig yn bwysig? 5

4 Sut mae Trethi Datganoledig yn gweithio? 6

5 Cwrdd â Threthi Cymru 7




© Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54786

1 BETH YW TRETHI DATGANOLEDIG CYMRU?



Mae Trethi Datganoledig Cymru yn drethi mae pobl Cymru yn eu talu. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r trethi i ariannu pethau fel ysgolion, y gwasanaeth iechyd a thrafnidiaeth.

2 BETH MAE DATGANOLEDIG YN EI OLYGU?



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae datganoledig yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniadau ar rai o'r trethi sy'n cael eu talu yng Nghymru.



Mae'r rhain ar wahân i drethi'r Deyrnas Unedig, sy'n golygu nad oes gan Senedd y DU y pŵer i wneud penderfyniadau ar Drethi Datganoledig yng Nghymru.



Gall Llywodraeth Cymru hefyd awgrymu trethi newydd. Mae Senedd Cymru yn cytuno ar gyfraddau a chyfreithiau am drethi Cymru, ac yn pleidleisio ar sut mae'r arian yn cael ei wario.

3 PAM MAE TRETHI DATGANOLEDIG YN BWYSIG?

Mae Trethi Datganoledig Cymru yn rhoi mwy o reolaeth i Lywodraeth Cymru dros sut mae trethi penodol yn cael eu cynllunio a'u rheoli. Mae hyn yn golygu y gall wneud penderfyniadau sy'n cwrdd ag anghenion Cymru.

Mae'r arian a godir gan drigolion a busnesau Cymru yn helpu i dalu am wasanaethau cyhoeddus, fel ysgolion, ysbytai a thrafnidiaeth. Mae hefyd yn cefnogi economi a chymunedau Cymru.

Dydy'r dreth hon ddim yn siwtio Cymru. Amdani!



4 SUT MAE TRETHI DATGANOLEDIG YN GWEITHIO?

Mae trethi datganoledig yn cael eu casglu gan Awdurdod Cyllid Cymru. Mae'r holl arian maen nhw'n ei gasglu yn mynd i Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu sut i wario'r arian, trwy greu cyllideb. Er enghraifft, mae'r arian yn helpu i dalu am bethau fel gwasanaethau iechyd, meddygon, nyrsys, athrawon, gofal cymdeithasol, ffyrdd, tai a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Trethi Datganoledig → **Awdurdod Cyllid Cymru (ACC)** → **Cyllideb Llywodraeth Cymru** → **Gwasanaethau Cyhoeddus**




5 CWRDD Â THRETHI CYMRU

Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC)

Yr un sy'n dod allan o becyn cyflog person, sy'n helpu i ariannu gwasanaethau cyhoeddus bob diwrnod cyflog.

Pan fydd rhywun yng Nghymru yn ennill mwy na £12,570 y flwyddyn, maen nhw fel arfer yn talu Treth Incwm ar rai o'u henillion. Gelwir rhan o hyn yn Gyfraddau Treth Incwm Cymru.

Dyma sut mae'n gweithio. Dychmygwch fod pob £1 y mae rhywun yn ei ennill yn cael ei rannu'n 100 ceiniog. Mae Llywodraeth y DU yn cymryd 10 o'r ceiniogau hynny oddi ar y gyfradd Treth Incwm. Yna mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu faint i'w ychwanegu yn ôl. Ar hyn o bryd, mae'n ychwanegu pob un o'r 10 yn ôl, felly mae pobl yng Nghymru yn talu'r un gyfradd Treth Incwm â phobl yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.



£1 = 100 ceiniog
Y rhes werdd yw'r 10 ceiniog mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu arnyn nhw

Mae Llywodraeth Cymru yn gwario'r arian o'r 10 ceiniog hynny ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, fel ysgolion a'r gwasanaeth iechyd.

Mae CThEF yn casglu Treth Incwm, yn gynnwys (CTIC), ledled y DU. Mae Awdurdod Cyllid Cymru yn casglu'r trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn i Gymru, fel Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi.

SUT MAE TRETH INCWM YN CAEL EI RHANNU

Bandiau Treth: Mae Treth Incwm yn cael ei rannu i wahanol lefelau o'r enw bandiau. Mae gan bob band ei gyfradd dreth ei hun. Po fwyaf y mae rhywun yn ennill, yr uchaf yw'r bandiau mae eu harian yn disgyn ynddynt, a'r mwyaf o geiniogau ym mhob £1 yn cael eu talu mewn treth. Dim ond yr arian ym mhob band sy'n cael ei drethu ar gyfradd y band hwnnw.

1 geiniog i Lywodraeth Cymru **1 geiniog i Lywodraeth y DU**

Swm di-dreth (Lwfans Personol): Y swm y gall person ei ennill mewn blwyddyn cyn dechrau talu Treth Incwm. Ar hyn o bryd, mae hyn yn £12,570.

0 ceiniog ym mhob £1


Cyfradd sylfaenol: Treth Incwm o 20% ar enillion rhwng £12,571 a £50,270. Mae hyn yn golygu am bob £1 a enillir yn y band hwn, telir 20 ceiniog mewn treth. O'r 20 ceiniog hynny, mae 10 yn mynd i Lywodraeth Cymru.

20 ceiniog




Cyfradd uwch: Treth Incwm o 40% ar enillion rhwng £50,271 a £125,140. Am bob £1 a enillir yn y band hwn, telir 40 ceiniog mewn treth. O'r 40 ceiniog hynny, mae 10 yn mynd i Lywodraeth Cymru.

40 ceiniog



Cyfradd ychwanegol: Treth Incwm o 45% ar enillion dros £125,140. Am bob £1 a enillir yn y band hwn, telir 45 ceiniog mewn treth. O'r 45 ceiniog hynny, mae 10 yn mynd i Lywodraeth Cymru.

45 ceiniog



Treth Trafodiadau Tir (TTT)

Yr un sy'n codi ei ben pan fydd rhywun yn prynu cartref neu dir yng Nghymru. Po fwyaf yw'r pryniant, y mwyaf yw'r dreth.

Pan fydd rhywun yn prynu eiddo neu dir yng Nghymru dros bris penodol, mae'n rhaid iddynt dalu treth o'r enw Treth Trafodiadau Tir.

Er enghraifft, mae rhywun sy'n prynu cartref i fyw ynddo yn talu TTT os yw'n costio mwy na £225,000.



Treth Gwarediadau Tirlenwi (TGT)

Yr un sy'n codi tâl yn ôl pwysau, gan annog llai o wastraff i gael ei gladdu yn y ddaear.



Mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cael ei thalu pan fydd gwastraff yn cael ei gludo i safle tirlenwi yng Nghymru. Po fwyaf y mae'n pwyso, y mwyaf o dreth sy'n cael ei dalu.

Mae'n helpu i ddiogelu'r amgylchedd trwy annog pobl a busnesau i daflu llai, ac i ailgylchu ac ailddefnyddio mwy.




TRETHI LLEOL

Y Dreth Gyngor

Yr un sy'n cadw gwasanaethau lleol i redeg, o gasgliadau biniau i lyfrgelloedd.

Dyma dreth leol sy'n cael ei thalu gan bobl sy'n byw mewn cartrefi.

Mae pob cartref yng Nghymru yn cael ei roi mewn un o naw band Treth Gyngor, o A i I, yn seiliedig ar amcangyfrif o'i werth. Po uchaf yw'r band, y mwyaf o'r Dreth Gyngor mae cartref fel arfer yn ei dalu. Po isaf yw'r band, y lleiaf sy'n cael ei dalu.



Mae rhai aelwydydd yn talu llai o dreth gyngor oherwydd disgownt neu ostyngiadau. Efallai bydd eraill yn talu mwy trwy dâl ychwanegol o'r enw premiwm.



Ardrethi annomestig (Ardrethi Busnes)

Yr un ar gyfer siopau, swyddfeydd a ffatrïoedd, sy'n helpu i dalu am wasanaethau cyhoeddus mae pawb yn eu defnyddio.

Mae ardrethi annomestig, neu 'ardrethi busnes', yn dreth ar adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio fel cartrefi.

Mae'r dreth yn cael ei defnyddio i helpu cynghorau lleol i dalu am wasanaethau lleol. Mae hyn yn cynnwys ysgolion, gofal cymdeithasol, tai, yr heddlu, casglu sbwriel a llawer o wasanaethau eraill.

Mae'n cael ei thalu gan fusnesau sy'n defnyddio adeiladau fel siopau, swyddfeydd a ffatrïoedd.

Mae hefyd yn cael ei thalu ar adeiladau eraill sy'n cael eu defnyddio gan y cyhoedd, fel ysgolion ac ysbytai.




Ardoll Ymwelwyr

Aelod newydd o deulu Trethi Cymru, tâl bach nosweithiol sy'n cael ei dalu gan ymwelwyr. Bydd yn helpu i edrych ar ôl yr ardaloedd maen nhw'n aros ynddynt.

Mae'r Ardoll Ymwelwyr yn dreth leol ar arosiadau dros nos yng Nghymru. Mae ymwelwyr yn talu swm bach am bob noson mae'n nhw'n aros yn rhywle, fel gwesty, safle gwersylla neu gartref gwyliau.

Gall Cynghorau ddewis a ydyn nhw am gyflwyno Ardoll Ymwelwyr ai peidio, ond rhaid iddynt yn gyntaf siarad â phobl a busnesau lleol.

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid gwario'r arian ar wneud ardaloedd yn well i ymwelwyr a phobl leol. Gallai hyn gynnwys cadw strydoedd yn lân ac yn ddi-sbwriel, edrych ar ôl toiledau cyhoeddus, a gwarchod natur. Rhaid i Gynghorau ddweud wrth bobl leol sut mae'r arian yn cael ei wario.





Caerdydd fydd y lle cyntaf yng Nghymru i gyflwyno Ardoll Ymwelwyr, ym mis Ebrill 2027.

GEIRIAU ALLWEDDOL



Ardoll
Tâl neu dreth y mae'n rhaid i rywun ei dalu, fel yr Ardoll Ymwelwyr.

Awdurdod Cyllid Cymru (ACC)
Mae hwn yn gorff cyhoeddus sy'n casglu trethi Cymru, sef y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a'r Ardoll Ymwelwyr, ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r arian yn helpu i dalu am wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, fel ysgolion a'r gwasanaeth iechyd.

CThEF (Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi)
Adran o Lywodraeth y DU sy'n casglu trethi, fel Treth Incwm, yn cynnwys Cyfraddau Treth Incwm Cymru yng Nghymru a TAW. Mae'r arian mae'n ei gasglu yn helpu i dalu am wasanaethau cyhoeddus ledled y DU, fel gwasanaethau iechyd, ysgolion a ffyrdd.

Cyngor Lleol
Sefydliad a etholwyd i redeg pethau mewn ardal leol. Mae gan Gymru 22 o gynghorau. Enw arall arnynt yw Awdurdodau Lleol. Maen nhw'n gofalu am wasanaethau mae pobl yn eu defnyddio'n ddyddiol, fel ysgolion, ffyrdd, casgliadau biniau, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden. Er enghraifft, Cyngor Sir Powys.

Datganoledig
Pan fydd y pŵer i wneud penderfyniadau yn cael ei drosglwyddo o Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae gan Lywodraeth Cymru y pŵer i wneud ei phenderfyniadau ei hun ar rai trethi sy'n cael eu talu yng Nghymru.

Gwasanaethau cyhoeddus
Gwasanaethau sy'n cael eu hariannu gan y llywodraeth o arian trethi, i bawb yn y gymuned eu defnyddio. Er enghraifft, ysgolion, ysbytai a'r gwasanaeth iechyd.

Premiwm (y Dreth Gyngor)
Swm ychwanegol o dreth a godir ar ben y swm arferol.

Safle tirlenwi
Safle lle mae sbwriel yn mynd, fel arfer trwy ei gladdu yn y ddaear.

TAW (Treth Ar Werth)
Treth y DU yn cael ei ychwanegu at bris llawer o bethau y mae pobl yn eu prynu, fel dillad, teclynnau a phrydau allan. Fel arfer mae'n 20%, felly mae rhywbeth sy'n costio £10 cyn TAW yn costio £12 unwaith y bydd TAW yn cael ei ychwanegu. Mae'r arian yn mynd i Lywodraeth y DU.

Treth
Arian mae pobl a busnesau yn ei dalu i'r llywodraeth. Mae'n talu am bethau sydd eu hangen ar gymdeithas, fel ysgolion, ysbytai a'r gwasanaeth iechyd.

Treth Incwm
Treth ar yr arian mae pobl yn ei ennill wrth weithio, er enghraifft o swydd yng Nghymru. Enw rhan ohoni yw Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC)

Twristiaeth
Pan fydd pobl yn teithio i ymweld â lle, fel Cymru, ar gyfer gwyliau, diwrnod allan, neu daith waith. Mae hefyd yn cynnwys yr holl fusnesau a gwasanaethau mae ymwelwyr yn eu defnyddio tra byddant yno, fel gwestai, siopau ac atyniadau.

Llywodraeth Cymru
Llywodraeth ddatganoledig Cymru. Mae'n gwneud penderfyniadau ar feysydd fel iechyd, addysg a'r amgylchedd.

Senedd Cymru
Senedd Cymru neu'r Senedd yw'r lle mae gwleidyddion sy'n cael eu hethol gan bleidleiswyr yn dod at ei gilydd i gynrychioli Cymru. Maen nhw'n gwneud deddfau i Gymru, yn cytuno ar drethi Cymru, ac yn gwirio bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith yn iawn.